Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth
Knowledge Economy Skills Scholarships

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# TAFLEN FFEITHIAU KESS II

## AR GYFER BUSNESAU, CWMNÏAU A SEFYDLIADAU

**Mae Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth (KESS II) yn weithgaredd sylweddol ar draws Cymru a gefnogir gan Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop (ESF) drwy Llywodraeth Cymru sy'n cysylltu cwmnïau a sefydliadau gydag arbenigedd academaidd yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru i ymgymryd â phrosiectau ymchwil ar y cyd. Yn dilyn prosiect KESS hynod lwyddiannus rhwng 2009 a 2014, mae KESS II bellach yn yr ail rownd gyllido a bydd yn darparu 645 o ysgoloriaethau dros gyfnod o chwe blynedd.**

Gall ystod o gwmnïau a sefydliadau gymryd rhan yn KESS II, gan gynnwys cwmnïau Micro, Busnesau Bach a Chanolig, Cwmnïau Mawr, y Trydydd Sector a Mentrau Cymdeithasol. I fod yn gymwys, rhaid i chi fod â phresenoldeb gweithredol yn yr ardal Cydgyfeirio (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd). Caiff prosiectau eu hintegreiddio hefyd â rhaglen hyfforddi sgiliau lefel uwch ar gyfer y myfyriwr, gan arwain at Ddyfarniad Datblygu Sgiliau Ôl-raddedig, a fydd yn rhoi sylw i unrhyw fylchau o ran gwybodaeth neu sgiliau.

## PAM DEWIS KESS II

Caiff pob prosiect ei lunio'n benodol i gwrdd ag anghenion eich cwmni chi. Yna, cyflawnir y prosiect gan fyfyriwr penodol ar lefel Meistr Ymchwil neu PhD, a gefnogir gan y cwmni a chan y Brifysgol berthnasol. Dyma rhai o'r buddion wrth gymryd rhan mewn prosiect KESS II:

- Cyfle i brofi haeriadau, canfyddiadau a phrofiadau ynghylch eich cynnyrch, eich gwasanaeth neu eich brand.
- Darn o ymchwil y gallwch helpu i'w lywio, gyda chefnogaeth academydd, i gyd-fynd ag anghenion eich cwmni.
- Sicrhewch fod eich sefydliad yn llais awdurdodol ac yn arwain y farchnad yn eich sector.
- Myfyriwr penodol, a gaiff ei oruchwylio gan academydd, i weithio ar faes penodol i'ch busnes.
- Cost isel iawn i gymryd rhan, o'i gymharu â'r elw posibl y gallai eich prosiect ei greu.

## CYFRANIADAU ARIANNOL Y CWMNI

| Math o Sefydliad | Nifer o Gyflogeion | Carfan Bl. 1 (Dechrau Hyd 2015) PhD x 3 MYmch x1 | Carfan Bl. 2 (Dechrau Hyd 2016) PhD x 3 MYmch x1 | Carfan Bl. 3 (Dechrau Hyd 2017) PhD x 3 MYmch x1 | Carfan Bl. 4 (Dechrau Hyd 2018) PhD x 3 MYmch x1 | Carfan Bl. 5 (Dechrau Hyd 2019) MYmch x1 | Carfan Bl. 6 (Dechrau Hyd 2020) Dim dyraniad prosiectau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Micro | <10 | £3,000 | £3,500 | £3,500 | £3,750 | £3,750 | £3,750 |
| Bach | <50 | £3,000 | £3,500 | £3,500 | £3,750 | £3,750 | £3,750 |
| Canolig | <250 | £3,500 | £4,000 | £4,000 | £4,250 | £4,250 | £4,250 |
| Mawr | >250 | £4,000 | £4,500 | £4,500 | £4,750 | £4,750 | £4,750 |
| Trydydd Sector | - | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint |
| Menter Gymdeithasol | - | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint |
| Sector Cyhoeddus | - | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint | Yn dibynnu ar faint |

**Mae pob Cyfraniad Ariannol yn destun TAW (dylai partneriaid geisio cyngor gan eu Hadran Cyllid)**

Rhaid i'r ymchwil a wneir drwy brosiect KESS II gyd-fynd ag un o bedwar Maes Her Fawr Llywodraeth Cynulliad Cymru sef:

**GWYDDORAU BYWYD AC IECHYD**
Prosiect enghreifftiol: Datblygu technolegau arloesol ym maes iechyd merched yng nghyswllt gwneud diagnosis clinigol ynghylch anffrwythlondeb a chancr gynaecolegol

**PEIRIANNEG A DEUNYDDIAU UWCH**
Prosiect enghreifftiol: Datblygu cynnyrch ar gyfer rhyddhau cyffuriau ar y croen a drwy'r croen mewn modd rheoledig gan ddefnyddio dulliau encapsiwleiddio micro/ nano a nodwyddau micro

**CARBON ISEL, YNNI A'R AMGYLCHEDD**
Prosiect enghreifftiol: Tyfu tatws sy'n gwrthsefyll clwy tatws

**TGCH A'R ECONOMI DDIGIDOL**
Prosiect enghreifftiol: Arferion twristiaeth ddigidol byd-eang a datblygu economaidd ar gyfer Safleoedd Treftadaeth Byd UNESCO

## BETH A DDISGWYLIR O GWMNI PARTNER KESS II?

- Eich bod chi wedi'ch lleoli yn ardal cydgyfeirio Cymru
- Y gallwch chi oruchwylio eich myfyriwr tra ar leoliad yn eich cwmni chi am o leiaf 30 diwrnod y flwyddyn (gall hyn fod yn hyblyg, yn ddibynnol ar y prosiect)
- Y gallwch fod yn rhan o gyfarfodydd cynnydd chwarterol a chwblhau adroddiadau cynnydd

## BARN BYD BUSNES

Mae KESS yn rhoi mynediad i ni at bobl ac adnoddau na fyddem fel arfer yn cael mynediad atynt. Byddem yn bendant yn gweithio gyda KESS eto. Rydym wedi cael dau fyfyriwr PhD da iawn sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r busnes. Yn sicr, rydym wedi dysgu llawer drwy weithio gyda nhw, ac rydym yn gobeithio eu bod nhw wedi dysgu llawer drwy weithio gyda ni hefyd.
**Ian Cameron, Micropharm** - *Sector fferyllol*

---

Mae ansawdd ac amrywiaeth yr ymchwil y mae KESS yn ei chynnig ymhell tu hwnt i'r hyn y gallem ei wneud yn fewnol. I ni, nid mater o un prosiect yn unig yw hwn – mae ynghylch symud ein portffolio ymchwil ymlaen i'r dyfodol. Mae wedi cael ffocws gwirioneddol diolch i allu'r partneriaid academaidd i ddeall heriau'r diwydiant dŵr.
**Philippa Pearson, Dŵr Cymru / Welsh Water** – *Sector cyfleustodau*

---

Oherwydd ein bod yn gwmni bach mae angen i ni ddyrannu adnoddau'n effeithlon - sy'n golygu fod ymchwil fel arfer y tu hwnt i ni allu'i fforddio. Felly mae KESS wedi ein helpu ni i wneud rhywbeth na fydden ni wedi gallu ei wneud fel arall. Mae awydd myfyrwyr KESS am wybodaeth yn enfawr. Maent yn cynyddu ein sylfaen wybodaeth, ac yn barod i ofyn cwestiynau anodd. Rydych yn anghofio'r math yna o feddylfryd cwestiynu os ydych chi wedi bod allan o'r byd academaidd am gyfnod - felly er ein bod ni wedi eu hyfforddi nhw, maen nhw wedi ein hyfforddi ni hefyd. Mae gweithio gyda'r myfyrwyr hynod frwdfrydig hyn yn eich herio am bethau yr ydych wedi eu cymryd yn ganiataol.
**Richard Price, Catnic** – *Sector peirianneg*

---

I gwmnïau fel ni, mae KESS yn ein galluogi i wneud gwaith ymchwil mawr am gost isel. Y prif fudd i ni yw'r mynediad at arbenigedd ac adnoddau academaidd y mae KESS yn ei gynnig i ni.
**Ian Owen, Scanwel** – *Sector gweithgynhyrchu*

*Bydd canlyniadau Eiddo Deallusol (IPR) prosiect ac unrhyw Eiddo Deallusol yn codi o brosiect KESS II yn eiddo i'r Brifysgol berthnasol. Bydd Gwybodaeth Gefndir a ddefnyddir yng nghyswllt y prosiect KESS yn parhau'n eiddo i'r parti sy'n ei chyflwyno a bydd yn destun rhwymedigaethau o ran cyfrinachedd. Bydd y Brifysgol berthnasol yn rhoi'r opsiwn cyntaf i'r cwmni partner am un ai drwydded gyfyngol neu anghyfyngol i ddefnyddio'r Eiddo Deallusol neu ganlyniadau IPR eraill prosiect fel y negodir hwy rhwng y partïon cysylltiedig.*

## Mae gennym ddiddordeb mewn clywed gan bartneriaid newydd bob amser!


I gael rhagor o fanylion cysylltwch â:
**Gwern Hywel**
Rheolwr Prosiect KESS II
gwh5@aber.ac.uk
01970 628579

Am ymholiadau ariannol:
**Linda Cook**
Swyddog Cyllid KESS II
fic9@aber.ac.uk
01970 621879


Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth
Knowledge Economy Skills Scholarships